PUBLIC SPACE PROTECTION ORDER

INTOXICATING SUBSTANCES

INCLUDING ALCOHOL

Good Morning,

The current RCT Intoxicating Substances (Including Alcohol) PSPO is due to be reviewed in September 2021 and as such, the RCT Community Safety Partnership are commencing a period of consultation with key stakeholders to establish whether the PSPO should be extended for a further 3 year period. This will be part of a wider public consultation to be launched later in the year.

We see this as an opportunity to evaluate the existing PSPO in order to strengthen its remit and enforcement powers, as well as to ensure that it is fit for purpose and as robust as possible. We therefore invite you to make comment on your agency's experience of the PSPO, whether this be positive or to provide insight into elements of the PSPO or service delivery which could be improved upon.

I have included information on the current PSPO for your information.

I would be grateful if you could arrange for a response to be returned to PublicHealthComunitySafety@rctcbc.gov.uk no later than 11/6/21. You are welcome to write an open ended comment, but please aim to include the following details in your reply –

- The name of your agency/department.
- Is your agency aware of the Intoxicating Substances (Including Alcohol) PSPO I.e. That the whole of RCT is a 'Controlled Drinking Zone' and Pontypridd and Aberdare Town Centres are 'Intoxicating Substances Exclusion Zones'?
- Does your agency/department support the extension of the RCT borough wide 'Controlled Drinking Zone' for a further 3 years?
- Does your agency/department support the extension of the 'Intoxicating Substances Exclusion Zones' in Pontypridd and Aberdare Town Centres for a further 3 years?
- In your opinion, what elements of the current PSPO work?
- Are there any improvements that your agency/department would like to suggest for consideration if the PSPO is extended for a further 3 years?
- Please include any figures/anecdotal evidence that your agency has obtained in relation to the PSPO.

Many thanks for your assistance,

Laura Dando

Bore da,

Mae disgwyl i'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) cyfredol mewn perthynas â Gwahardd Sylweddau Meddwol (gan gynnwys Alcohol) yn RhCT gael ei adolygu ym mis Medi 2021. Yn sgil hyn, mae Partneriaeth Cymunedau Diogel RhCT yn cychwyn cyfnod o ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i nodi a ddylid ymestyn y Gorchymyn am gyfnod o 3 blynedd arall. Bydd hyn yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ehangach a fydd yn cael ei lansio nes ymlaen yn y flwyddyn.

Dyma gyfle i werthuso'r Gorchymyn cyfredol er mwyn cryfhau ei gylch gwaith a'i bwerau gorfodi, yn ogystal â sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac mor gadarn â phosibl. Rydyn ni felly yn eich gwahodd chi i gynnig eich sylwadau ar brofiad eich asiantaeth o'r Gorchymyn, p'un a yw hyn yn gadarnhaol neu i roi mewnwelediad i elfennau o'r Gorchymyn neu'r ddarpariaeth gwasanaeth y gellid eu gwella.

Rwyf wedi cynnwys gwybodaeth am y Gorchymyn cyfredol er gwybodaeth ichi.

Byddwn i'n ddiolchgar pe byddai modd i chi ddychwelyd eich ymateb ar e-bost: CymunedauDiogel@rctcbc.gov.uk erbyn 11/6/21. Mae croeso i chi ysgrifennu sylwadau penagored, ond byddwch cystal â chynnwys y manylion canlynol yn eich ymateb -

- Enw'ch asiantaeth / adran.
- A yw'ch asiantaeth yn ymwybodol o'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â Sylweddau Meddwol (Gan gynnwys Alcohol), h.y. Bod RhCT gyfan yn 'Barth Yfed a Reolir' a bod Canol Tref Pontypridd a Chanol Tref Aberdâr yn 'Barthau Gwahardd Sylweddau Meddwol'?
- A yw'ch asiantaeth/adran yn cefnogi'r bwriad i ymestyn y 'Parth Yfed a Reolir' ledled Bwrdeistref RhCT am 3 blynedd arall?
- A yw'ch asiantaeth/adran yn cefnogi'r bwriad i ymestyn y 'Parthau Gwahardd Sylweddau Meddwol' yng Nghanol Tref Pontypridd a Chanol Tref Aberdâr am 3 blynedd arall?
- Yn eich barn chi, pa elfennau o'r Gorchymyn cyfredol sy'n gweithio'n dda?
- A yw eich asiantaeth/adran yn dymuno awgrymu unrhyw welliannau i'w hystyried os yw'r Gorchymyn yn cael ei ymestyn am 3 blynedd arall?
- Cofiwch gynnwys unrhyw ffigurau / tystiolaeth anecdotaidd sydd gan eich asiantaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn.

Diolch yn fawr iawn am eich cymorth.

Laura Dando

Background to the current RCTCBC Intoxicating Substances (Including Alcohol) PSPO

What are the current PSPO restrictions in Rhondda Cynon Taf?

The existing Public Space Protection Order (PSPO) designates the whole County Borough of Rhondda Cynon Taf as a Controlled Drinking Zone. This does not ban or make it illegal to carry alcohol or to drink alcohol in a public place as long as drinking is done responsibly.

The current PSPO also denotes 'Intoxicating Substance Exclusion Zones' in Pontypridd Town Centre and Aberdare Town Centre (defined areas of Pontypridd and Aberdare Town Centre - refer to the enclosed Maps). The Order prohibits persons in these areas from ingesting, inhaling, injecting, smoking or otherwise using intoxicating substances in public places.

The consumption of alcohol in the exclusion zones is only allowed where the activity is undertaken at a premises or within the boundaries of the premises which is authorised for the supply of alcohol.

A fixed fine of £100 has been set for breaches of the order (the maximum allowed).

What are Public Spaces Protection Orders (PSPOs)?

Public spaces protection orders are intended to deal with a particular nuisance or problem in a particular area that is detrimental to the local community's quality of life, by imposing conditions on the use of that area which apply to everyone. The order could also be used to deal with likely future problems. The Antisocial Behaviour Crime and Policing Act 2014 allows councils to introduce these orders, after consultation with communities and other interested parties. The orders must be reviewed every three years to ensure they are still necessary.

What does the Borough wide PSPO mean?

The aim of the PSPO is to provide Local Authorities with the necessary powers to introduce restrictions upon activity and behaviours deemed to be anti-social and occurring in "public spaces". A PSPO is designed to restrict and prohibit certain behaviours. In Rhondda Cynon Taff County Borough, the consumption of alcohol in public spaces is currently restricted with a condition that enables a police officer or other enforcement officer to request that a person who is causing anti-social behaviour whilst in possession of alcohol, to stop drinking alcohol. It also gives the police/enforcement officer the right to seize the alcohol. If someone refuses to comply with the request of the police/enforcement officer to stop drinking and to hand over any containers believed to contain alcohol he/she commits a criminal offence. The PSPO can be enforced by both the local authority (authorised personnel) and the police and any breach of the order is a criminal offence which can be discharged via fixed penalty notice (£100) or up to £1000 fine upon prosecution.

Is the borough wide PSPO a ban on drinking alcohol?

No**.** A drinker's behaviour is the consideration in any action taken by those who enforce the order. It is not intended that those who are sensibly drinking will be subjected to these order's requirements. Home Office guidance reinforces this.

However, the drinking of alcohol in the Exclusion Zones will be prohibited, other than in relation to an activity, premises or curtilage authorised to be used for the supply of alcohol by licence or club premises certificate or permission granted under section 115E of the Highways Act 1980.

What is meant by Intoxicating Substances?

Intoxicating Substances will be defined as substances with the capacity to stimulate or depress the central nervous system. (this includes alcohol and what are commonly referred to as "legal highs"): Exemptions shall apply where the substances are used for a valid and demonstrable medical use, given to an animal as a medicinal remedy, are cigarettes (tobacco) or vaporisers or are food stuffs regulated by Food, Safety or Health legislation.

What are the benefits of this PSPO?

The main benefits are to reduce street drinking that is having a negative impact on communities and the environment, whilst reducing harmful consumption of alcohol and protecting vulnerable people.

Where are the Intoxicating Substance Exclusion Zones?

The Intoxicating Substance Exclusion Zones are in Pontypridd Town Centre and Aberdare Town Centre. See maps below. The existing Public Space Protection Order (PSPO) covers the whole County Borough of Rhondda Cynon Taf being a Controlled Drinking Zone.

Cefndir Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) presennol CBSRhCT mewn perthynas â Gwahardd Sylweddau Meddwol (gan gynnwys Alcohol)

Pa gyfyngiadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn Rhondda Cynon Taf o ran y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus?

Mae'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) presennol yn dynodi pob rhan o Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn Barth Yfed a Reolir. Dydy hyn ddim yn gwahardd cario alcohol neu yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus neu'i gwneud hi'n anghyfreithlon i wneud hynny, cyn belled â bod yr unigolyn/unigolion yn yfed yn gyfrifol.

Mae'r Gorchymyn cyfredol hefyd yn dynodi 'Parthau Gwahardd Sylweddau Meddwol' yng Nghanol Tref Pontypridd a Chanol Tref Aberdâr (ardaloedd penodol yng Nghanol Tref Pontypridd a Chanol Tref Aberdâr - cyfeiriwch at y Mapiau sydd wedi'u cynnwys). Mae'r Gorchymyn yn gwahardd unigolion yn yr ardaloedd yma rhag amlyncu, anadlu, chwistrellu, ysmygu neu ddefnyddio sylweddau meddwol mewn mannau cyhoeddus.

Caiff yfed alcohol yn y parthau gwahardd ei awdurdodi dim ond pan fo'r gweithgaredd hwnnw yn cael ei wneud mewn adeilad neu ffiniau adeilad sydd wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol.

Mae dirwy benodedig o £100 wedi'i gosod ar gyfer achosion o dorri'r gorchymyn (dyma'r uchafswm sy'n cael ei ganiatáu).

Beth yw Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPOs)?

Bwriad gweithredu gorchmynion diogelu mannau cyhoeddus yw delio â niwsans neu broblem benodol mewn ardal benodol sy'n niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol, trwy osod amodau, mae rhaid i bawb gydymffurfio â nhw, ar ddefnydd yr ardal. Mae modd defnyddio'r gorchymyn yma gyda phroblemau tebyg yn y dyfodol. Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn caniatáu i gynghorau gyflwyno'r gorchmynion yma, ar ôl iddyn nhw ymgynghori â chymunedau ac eraill sydd â diddordeb. Mae rhaid adolygu'r gorchmynion bob tair blynedd i sicrhau eu bod nhw'n angenrheidiol.

Beth yw nod Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Bwrdeistref Sirol gyfan?

Nod y Gorchymyn fydd rhoi'r pwerau angenrheidiol i Awdurdodau Lleol gyflwyno cyfyngiadau ar weithgareddau a ffyrdd o ymddwyn yr ystyrir eu bod nhw'n wrthgymdeithasol mewn 'mannau cyhoeddus'. Mae Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus wedi'i gynllunio i atal a gwahardd ffyrdd penodol o ymddwyn. Yn Rhondda Cynon Taf, mae yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus wedi'i atal ar hyn o bryd, gydag amod sy'n rhoi'r pŵer i swyddogion yr heddlu a swyddogion gorfodi eraill ofyn i unigolyn sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac sydd ym meddiant alcohol, i roi'r gorau i'w yfed. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i swyddogion yr heddlu/swyddogion gorfodi

atafaelu'r alcohol. Os bydd yr unigolyn yn gwrthod rhoi'r gorau i yfed alcohol, ar ôl i swyddog yr heddlu/swyddog gorfodi ofyn iddo wneud hynny, ac yn gwrthod rhoi unrhyw gynwysyddion sydd, ym marn y swyddog, yn cynnwys alcohol, bydd ef/hi yn torri'r gyfraith. Mae modd i'r Gorchymyn ei orfodi gan yr Awdurdod Lleol (gweithwyr ag awdurdod) a'r heddlu. Os caiff unrhyw amodau o'r Gorchymyn eu torri, bydd hyn yn drosedd ac yn arwain at ddirwy o £100 (drwy Hysbysiad Cosb Benodedig), neu ddirwy o hyd at £1,000 os caiff yr unigolyn ei erlyn.

A ydy'r Gorchymyn wedi'i orfodi ledled y fwrdeistref yn gwahardd yfed alcohol?

Nac ydy**.** Caiff ymddygiad y person sy'n yfed alcohol ei ystyried gan y rhai sy'n gorfodi'r gorchymyn wrth iddyn nhw gymryd unrhyw gamau gweithredu. Does dim disgwyl i'r unigolion sy'n yfed alcohol yn synhwyrol fod yn destun gofynion y gorchymyn. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn atgyfnerthu hyn.

Serch hynny, fydd dim modd yfed alcohol yn y parthau gwahardd, heblaw mewn perthynas â gweithgaredd, adeilad neu gwrtil mangre sydd wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol trwy drwydded neu dystysgrif mangre clwb neu ganiatâd sydd wedi'i roi o dan adran 115E o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Beth yw Sylweddau Meddwol?

Mae Sylweddau Meddwol yn golygu sylweddau sydd â'r gallu i ysgogi neu iselhau'r system nerfol ganolog. (mae hyn yn cynnwys alcohol a'r hyn y cyfeirir atyn nhw yn gyffredinol fel 'anterthau cyfreithiol'): Bydd eithriadau'n berthnasol lle mae'r Sylweddau'n cael eu defnyddio at ddibenion dilys a meddygol (a bod modd profi hyn), yn cael eu rhoi i anifeiliaid fel meddyginiaeth, yn sigarennau (tybaco) neu anweddwyr (vaporisers) neu'n fwydydd wedi'u rheoleiddio gan ddeddfwriaeth Bwyd, Diogelwch neu Iechyd.

Beth yw buddion y Gorchymyn yma?

Prif fuddion yw lleihau yfed alcohol ar y stryd sy'n cael effaith negyddol ar gymunedau a'r amgylchedd, wrth leihau defnydd niweidiol o alcohol a diogelu pobl sy'n agored i niwed.

Ble mae'r Parthau Gwahardd Sylweddau Meddwol?

Mae'r Parthau Gwahardd Sylweddau Meddwol wedi'u lleoi yng Nghanol Tref Pontypridd a Chanol Tref Aberdâr. Gweler y mapiau isod. Mae'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) presennol yn dynodi pob rhan o Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn Barth Yfed a Reolir.

Aberdare Exclusion Zone for Intoxicating Substances
Parth Gwahardd Sylweddau Meddwol Aberdâr

Figure 1
Ffigur 1



Pontypridd Exclusion Zone for Intoxicating Substances
Parth Gwahardd Sylweddau Meddwol Pontypridd

Figure 2
Ffigur 2